





Menter ac Entrepreneuriaeth




Adolygiad Effaith Blynyddol 2019

Syniadau Mawr
Cymru

Big Ideas
Wales






Cyflwyniad



Nodau a Buddion




Llwyddiannau




Astudiaeth Achos



Gweithio ar y Cyd





Menter ac Entrepreneuriaeth

Mae Coleg Gwent yn ymrwymedig i hyrwyddo a chyflymu creadigaeth fenter ac atgyfnerthu sgiliau entrepreneuraidd ymhlith ein cymuned ddysg.

Gyda chefnogaeth gan gyllid Llywodraeth Cymru, rydym wedi defnyddio hyrwyddwr menter ymroddedig i weithredu fel cwndid rhwng dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allanol. Mae gan ein dysgwyr fynediad at sgysiau gydag esiamplau da ac arbenigwyr busnes ysbrydoledig, heriau menter rhwng colegau, cyfeiriadaeth at gyfleoedd cyllid a thwf, a chefnogaeth un i un ar gyfer datblygu eu syniadau a galluoedd busnes. Mae ein ffocws strategol wedi'i ganolbwyntio ar feysydd cyflawni Strategaeth Menter leuenctid:

- **Galluogi** ein staff i hyrwyddo entrepreneuriaeth o fewn eu pwnc neu adran.
- **Ymgysylltu** dysgwyr gyda mentrau sydd wedi'u dylunio i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth.
- **Grymuso** dysgwyr gyda gweithgareddau i helpu i ddatblygu eu gallu entrepreneuraidd.
- **Cyfarparu** dysgwyr gyda'r sgiliau a'r galluoedd i ddatblygu a lansio eu syniadau busnes.

Mae Coleg Gwent yn cyfrannu'n rhanbarthol at uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twf economaidd a darparu swyddi i bobl ifanc. Rydym yn Career College, ac yn gweithio'n agos gyda diwydiant er mwyn bodloni anghenion busnesau rhanbarthol a'u cadwynau cyflenwi. Mae menter ac entrepreneuriaeth yn brif amcanion, ac rydym yn cymryd arnom amcan holistig i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy ymhlith ein dysgwyr sy'n fuddiol i'r unigolyn a'r economi leol.

Rheolwr - Profiad Myfyrwyr


Vanessa Janes-Evans

E-bost: vanessa.janes-evans@coleggwent.ac.uk

Arweinydd Menter ac Entrepreneuriaeth

Zoe Blackler

E-bost: zoe.blackler@coleggwent.ac.uk



Sgiliau
cyflogadwyedd

Cydnabod
cyfleoedd

Gwytnwch ac
annibyniaeth

Gwerth
cymdeithasol

Arloesedd a
chreadigrwydd

Cydweithio

Cyfathrebu

Teimlo'n
werthfawr

Arweinyddiaeth

Mae dros hanner (51%) pobl ifanc Prydain (14-25 oed) wedi meddwl am ddechrau busnes (neu wedi dechrau busnes eisoes), gyda 35% arall yn agored i'r syniad o ddechrau busnes.

Cyflwynwyd tystiolaeth o bwysigrwydd ac effaith Addysg Fenter yn adroddiad EC 2015

‘Entrepreneurship Education: A road to success’ a oedd yn dangos bod myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn Addysg Fenter yn fwy tebygol o ddechrau eu busnes eu hunain ac mae eu cwmnïau yn dueddol o fod yn fwy arloesol a llwyddiannus na'r rheiny sydd dan arweiniad unigolion nad ydynt wedi cael Addysg Fenter.

Yn ogystal, dangosir yr ymchwil bod cyn-fyfyrwyr Addysg Fenter mewn risg is o fod yn anghyflogedig, ac yn amlach mewn gwaith sefydlog â chyflog uwch.

Yn Coleg Gwent, ein nod yw:


- Hwyluso** uchelgais entrepreneuraidd a chefnogi busnesau myfyrwyr ar bob cam o'u taith dechrau arni.
- Annog** cymuned y coleg i ddarparu amgylchedd mentrus a chefnogol.
- Ysbrydoli** myfyrwyr gyda chyfleoedd i gwrdd ag entrepreneuriaid lleol a chlywed eu straeon.
- Datblygu a meithrin** galluedd dysgwyr, eu helpu nhw i adnabod a manteisio ar nodweddion entrepreneuraidd nad ydynt o bosibl yn ymwybodol eu bod eisoes yn meddu arnynt..
- Ysgogi** ein dysgwyr i ddilyn eu huchelgeisiau entrepreneuraidd ac ystyried hunan-gyflogaeth fel opsiwn realistig.

Llwyddiannau



Sesiynau datblygu syniadau
'Busnes mewn Bocs'

Gweithdai
dosbarthiadau
meistr marchnata



Sgyrsiau gan esiamplau da
Syniadau Mawr Cymru

2019 mewn rhifau...

1332

o fyfyrwyr **wedi**
ymgysylltu â mentrau a
digwyddiadau codi
ymwybyddiaeth menter
ac entrepreneuriaeth

69

o fyfyrwyr **wedi'u**
cyfarparu â'r gefnogaeth
a'r cyfleoedd i brofi,
dilysu neu lansio eu
syniadau busnes

273

o fyfyrwyr **wedi'u**
grymuso i archwilio a rhoi
eu sgiliau a'u galluoedd
entrepreneuraidd ar
waith

34

o staff **yn galluogi**
entrepreneuriaeth o
fewn eu pwnc neu
adran academaidd

Astudiaeth Achos


**Ymweliadau a sesiynau cyngor
ysbrydoledig gan gyn-fyfyrwyr
sy'n entrepreneuriaid**



**Cydweithio rhwng cyrsiau yn
dylunio, creu a gwerthu
cynhyrchion, ynghyd â
chystadlaethau menter siopa dirgel**

Daeth y flwyddyn 2019 i ben gyda llwyddiant i dri o fyfyrwyr Crosskeys wrth iddynt ennill cyllid ar ffurf grant yng nghystadleuaeth sbarduno menter flynyddol Tafflab. Yn dilyn cefnogaeth gan Coleg Gwent i'w helpu nhw i ddatblygu eu syniadau, a defnyddio'r feddalwedd cynllunio busnes drwy Simply Do Ideas, cymerasant ran yng nghystadleuaeth flynyddol Tafflab. Mae Tafflab yn fenter RSA sydd nid yn unig yn rhoi cyllid cychwynnol i enillwyr o golegau AB, ond hefyd yn paru'r myfyrwyr buddugol â thîm o fentoriaid am flwyddyn, sy'n cynnwys dau o Gymrodorion RSA a hyrwyddwr menter eu coleg, er mwyn cefnogi'r myfyrwyr i wireddu eu syniad busnes - waeth beth fo'r sector neu ddiwydiant. Gan ddefnyddio cefnogaeth a chysylltiadau'r Gymrodoriaeth, mae'r cyfranogwyr yn ennill cefnogaeth a chynghor i'w helpu i wireddu eu syniad.

Cafodd yr enillwyr a gyrhaeddodd y brig £500 i lansio eu busnesau: Rachel Jones a'i busnes Therapiau Cyflenwol - Homestead Health, a Meryam el Mouataz gyda'i busnes sy'n gwerthu cynnyrch harddwch sy'n cynnwys Olew Argan o Foroco. Cafodd y myfyriwr busnes Calvin Bang £200 i archwilio ei syniadau ar gyfer busnes sydd â ffocws ecolegol sy'n darparu atebion cynaliadwy i gynhyrchion sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr. Dywedodd Meryam, enillydd Tafflab, "Hoffwn ddiolch i bawb ynghlwm, yn enwedig Coleg Gwent a Tafflab, am eu hanogaeth a'u cred ynof fi a fy syniad busnes. Mae bod yn enillydd Tafflab wedi gwneud i mi deimlo'n llawer mwy hyderus a byddaf yn ceisio fy ngorau i gyflawni fy nodau."



Gweithio ar y Cyd

Syniadau Mawr
Cymru

Big Ideas
Wales



Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r rhwydwaith cydweithio rhagorol ar draws Cymru sy'n ein caniatáu ni i weithio fel rhan o eco-system entrepreneuraidd ar gyfer addysg. Mae'n rhoi'r gallu i ni ddarparu myfyrwyr â chynghor a gwybodaeth, cefnogaeth fusnes ganolbwyntiedig, digwyddiadau menter difyr, cystadlaethau rhwng colegau, a mynediad at gyfleoedd cyllid.

